wavehill

social and economic research

ymchwil cymdeithasol ac economaidd

# Dadansoddiad o'r Ymgynghoriadau ar Ganllawiau Ychwanegol Cwricwlwm i Gymru

Ebrill 2022

## Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd


Awduron yr adroddiad:

Llorenc O'Prey

Ebrill 2022

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 2–4 Park Street, Bristol, BS1 5HS
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 52 Cecile Park, Crouch End, London, N8 9AS

Manylion cyswllt:

Ffôn: 01545 571711
E-bost: wavehill@wavehill.com
Twitter: @wavehilltweets
Gwefan: www.wavehill.com

Dylai unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r adroddiad hwn gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at Llorenc O'Prey (llorenc.oprey@wavehill.com)

# 1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o farn a safbwyntiau ymatebwyr mewn perthynas o ganllawiau a dogfennau drafft sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru. Er mwyn cynorthwyo lleoliadau ac ysgolion i ymgysylltu ag elfennau o'r cwricwlwm newydd, mae ymarferwyr a rhanddeiliaid wedi bod yn cyd-gynllunio'r canllawiau a'r dogfennau drafft canlynol:

- Fframweithiau'r Sgiliau Trawsgwricwlaidd

Er mwyn deall pa mor ddefnyddiol a chlir oedd y dogfennau hyn, gofynnodd Llywodraeth Cymru am farn a safbwyntiau'r gymuned addysgol. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar bob elfen o'r canllawiau a'r dogfennau. Mae'r adborth a'r safbwyntiau wedi llywio datblygiad parhaus y dogfennau a'r canllawiau, cyn i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno i leoliadau ac ysgolion ym mis Medi 2022.

Caiff barn yr ymatebwyr ar bob elfen o'r canllawiau drafft ei harchwilio yn yr adroddiad yma. Mae hwn yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion, ac yna ceir archwiliad manwl o'r farn a'r safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr.

# 2 Fframweithiau'r Sgiliau Trawsgwricwlaidd

Cynhaliwyd ymgynghoriad i edrych ar farn a safbwyntiau ymarferwyr a rhanddeiliaid ehangach mewn perthynas â'r Camau ABC diwygiedig oddi mewn i Fframweithiau'r Sgiliau Trawsgwricwlaidd ac ar draws y fframweithiau hyn.

## Crynodeb Gweithredol

Ymgynghorwyd â'r ymatebwyr ar y diwygiadau i Gamau ABC yn Fframweithiau'r Sgiliau Trawsgwricwlaidd. Bwriad y fframweithiau a Chamau ABC yw cynorthwyo'r rhai sy'n ymwneud â hybu datblygiad llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol i ddysgwyr sy'n gweithio tuag at gam cynnydd 1. Cyfrannodd cyfanswm o 21 o ymatebwyr eu barn ynglŷn â'r diwygiadau.

### Canfyddiadau

Roedd yr ymatebwyr (ar y cyfan) yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r diwygiadau i Gamau ABC. Roedd hyn yn cynnwys ynglŷn â'r dogfennau eu hunain yn ogystal â'r amcanion ehangach y maent yn ceisio eu hybu. Roedd consensws cyffredinol ynghylch pwysigrwydd cefnogi pob dysgwr, er enghraifft, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Roedd llawer o'r ymatebwyr hefyd yn croesawu teimlad a chyfeiriad cyffredinol y dull gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys y pwysigrwydd sy'n cael ei roi i ddysgu a chynnydd mewn ffordd bersonol, yn ogystal â chydnabod barn broffesiynol wrth gefnogi dysgwyr a rôl y farn broffesiynol hon.

Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y fframweithiau eu hunain yn ddefnyddiol i ymarferwyr. Roedd llawer yn teimlo bod elfennau fel Ar Drywydd Dysgu a Chamau ABC yn glir ac yn hygyrch. Byddai hyn o gymorth effeithiol i ymarferwyr ymwneud â dysgu ac addysgu, gan gynnwys cynllunio a chefnogi cynnydd dysgwyr.

Lle'r oedd yr ymatebwyr yn cynnig awgrymiadau am gryfhau'r fframweithiau, roedd y rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar gywirdeb a manylder yn Ar Drywydd Dysgu a Chamau ABC. Roedd y rhain yn cynnwys tynhau'r cysondeb yn y datganiadau ac ar eu traws, yn ogystal â lle y gellid eu diwygio neu ymhelaethu arnynt. At hynny, roedd rhai ymatebwyr yn dymuno gweld mwy o sôn yn benodol am rai elfennau yng Nghamau ABC, fel hawliau plant a'r Gymraeg. Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at y gwerth posibl sydd i gael rhagor o wybodaeth fel esiamplau a rhestr termau. O'r safbwyntiau hyn, byddai rhagor o gywirdeb a manylder yng Nghamau ABC yn cefnogi ac yn sicrhau cynnydd dysgwyr.

Yn gyffredinol, mân addasiadau i'r Camau ABC diwygiedig oedd yr awgrymiadau ar ble y gellid eu cryfhau. Roedd yr ymatebwyr (unwaith eto) ar y cyfan yn croesawu'r diwygiadau ac yn teimlo eu bod yn darparu adnodd gwerthfawr i gefnogi pob dysgwr.

## 2.1 Cefndir

Mae llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol o fewn Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Dyma'r blociau adeiladu hanfodol sy'n sail i'r holl ddysgu ac sy'n galluogi'r dysgwyr i gael mynediad i'r cwricwlwm cyfan.

Er mwyn cynorthwyo lleoliadau ac ysgolion i ymwneud â phob dysgwr, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, mae Camau ABC wedi'u mireinio yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Mae'r fframweithiau ar gyfer pob dysgwr, ac mae Camau ABC yn elfennau pwysig sy'n rhagflaenu llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Mae Ar Drywydd Dysgu a Chamau ABC yn disgrifio'r cynnydd y gallai'r dysgwyr ei wneud wrth iddynt atgyfnerthu a chymhwyso eu sgiliau tuag at gam cynnydd 1 a thu hwnt:

| **Llwybrau at …** | | | | Cam Cynnydd 1 | Cam Cynnydd 2 | Cam Cynnydd 3 | Cam Cynnydd 4 | Cam Cynnydd 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Map Llwybrau Ar Drywydd Dysgu | Camau A | Camau B | Camau C | | | | | |
| | | | | | | | | |

Er mwyn adlewyrchu ysbryd Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, mae datganiadau Camau ABC wedi'u diwygio ac maent bellach yn cael eu mynegi o safbwynt y dysgwr. Datblygwyd y Camau ABC diwygiedig drafft gan ymarferwyr o bob rhan o Gymru drwy broses o gyd-greu. Y bwriad yw bod adborth o'r ymgynghoriad hwn yn llywio gwelliannau pellach i Gamau ABC.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys dolenni i'r Camau ABC diwygiedig eu hunain, ar gael fan yma.

## 2.2 Ymatebion

Rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2021, rhoddodd 21 o ymatebwyr o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb yn y fframweithiau. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys rhieni/gofalwyr, ymarferwyr, uwch arweinwyr, a llywodraethwyr. At hynny, roeddent yn cynnwys rhai sy'n cefnogi lleoliadau ac ysgolion, megis cynghorwyr herio a swyddogion gwella ysgolion. Cafwyd ymatebion hefyd gan sefydliadau gan gynnwys consortia rhanbarthol, cyrff ymbarél, undebau athrawon, ac Estyn. Gwnaeth grwpiau eiriolaeth, gan gynnwys y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru, hefyd roi o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad.


## 2.3 Newidiadau i Gamau ABC

Gofynnwyd i'r ymatebwyr yn gyntaf a oeddent yn cytuno â'r newidiadau i Gamau ABC.[1]

[1] I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau i Gamau ABC o fewn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol? Os nad ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau, esboniwch pam.

## Canfyddiadau Cyffredinol

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn gyffredinol yn croesawu'r diwygiadau i Gamau ABC. Roedd cyfanswm o 73 y cant o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r newidiadau arfaethedig:




Ni wnaeth llawer o'r ymatebwyr a oedd yn mynegi barn fwy cadarnhaol ar y newidiadau gynnig unrhyw sylwadau pellach. O'r ymatebwyr hynny a oedd naill ai'n ansicr neu'n anghytuno â'r newidiadau, dim ond un a roddodd sylwadau pellach ynglŷn â pham. Roedd yr ymatebydd yma'n canolbwyntio ar fwy o eglurder a chysondeb yng Nghamau ABC, a mynegwyd y teimladau hyn gan rai ymatebwyr eraill a oedd â barn fwy cadarnhaol.

## Themâu Allweddol

### *Lefel y Manylion*

Roedd yn ymddangos bod anghytundeb ymhlith rhai ymatebwyr ynglŷn â faint o fanylion y dylid eu cynnig yng Nghamau ABC. Nododd rhai ymatebwyr, er enghraifft, y byddai mwy o fanylion a dyfnder mewn mannau yn gwneud Camau ABC yn fwy gwerthfawr ac addysgiadol. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at feysydd penodol lle'r oeddent yn teimlo y gellid cryfhau'r canllawiau:

> *Llythrennedd: Angen mwy o fanylion ar elfen ymwybyddiaeth ffonolegol. Cerrig camu bach ychwanegol yng ngham B.*
>
> Cynghorydd Herio, Awdurdod lleol

Ar y llaw arall, er mwyn hybu ac annog mwy o ddysgu personol, teimlai rhai eraill y dylai'r fframweithiau a Chamau ABC gynnig trosolwg (yn hytrach na gwybodaeth sy'n rhy fanwl neu

ragnodol). O'r safbwyntiau hyn, byddai hyn yn galluogi ac yn grymuso ymarferwyr i arfer eu barn broffesiynol yn unol â theimlad cyffredinol y Cwricwlwm i Gymru, a gallai hefyd atal Camau ABC rhag bod yn ymarferiad ticio blychau:

> [Rwy'n] *cytuno â'r geiriad o safbwynt disgybl ond yn teimlo y byddai'n well lleihau nifer y dangosyddion a chael mwy o lwybr datblygu gyda nodwyr allweddol. Gall athrawon ddefnyddio'r manylion os oes angen ond yn unol â'r cwricwlwm newydd. Rwy'n teimlo y dylai fod gennym ni brif ddangosyddion llwybr ar gyfer cynnydd y gall athrawon eu defnyddio i gynorthwyo cynllunio,* [gan ddefnyddio] *eu barn broffesiynol a'u gwybodaeth am ddatblygiad plant neu offer eraill i roi'r manylion iddynt lle bo angen ar gyfer agweddau penodol i ddiwallu anghenion disgyblion.*

Consortiwm rhanbarthol

## *Cysondeb*

Roedd y rhai a oedd yn dymuno gweld mwy o fanylion yng Nghamau ABC hefyd yn tueddu i gyfeirio at bwysigrwydd cysondeb ar draws fframweithiau gwahanol ac oddi mewn iddynt. Roedd hyn yn cynnwys enghreifftiau penodol o ble y gellid tynhau datganiadau a'u gwneud yn fwy cyson oddi mewn i gamau A, B C ac ar eu traws:

> *Yn gyffredinol, ydw, ond* [mae] *pryderon ynghylch cynnydd mewn rhai meysydd. Gwrando am ystyr,* [e.e.] *'Rwy'n gallu dangos* [...]*' yn* [A] *ac* [C] *ond nid* [B] *— cysondeb? A yw'r cynnydd rhwng 'Rwy'n gallu dangos fy mod yn deall* [...] *'* [A] *ac 'Rwy'n gallu gwrando* [...]*'* [B] *yn briodol?*


Swyddog Gwella Ysgolion, Consortiwm Rhanbarthol

## 2.4 Cerrig Milltir Ar Drywydd Dysgu

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn am eu barn ar ba mor ddefnyddiol yw cerrig milltir Ar Drywydd Dysgu i'r ymarferwyr.[2]

### Canfyddiadau Cyffredinol

Yn unol â'r teimladau cadarnhaol cyffredinol a fynegwyd gan ymatebwyr ynglŷn â'r fframweithiau a'r Camau ABC, roedd 73 y cant o'r farn bod Ar Drywydd Dysgu yn ddefnyddiol iawn neu'n hynod o ddefnyddiol:




### Themâu Allweddol

#### *Cynorthwyo Ymgysylltiad Ymarferwyr*

Thema allweddol a godwyd gan yr ymatebwyr oedd gwerth a phwysigrwydd Ar Drywydd Dysgu o ran cynorthwyo'r ymarferwyr i ymgysylltu â'r Camau ABC. O'r safbwyntiau hyn, roedd Ar Drywydd Dysgu yn darparu gwybodaeth gyd-destunol bwysig sy'n cyfleu'r dysgu blaenorol sydd ei angen a'r amcanion dysgu cyffredinol:

> *Gallai cynnwys cerrig milltir Ar Drywydd Dysgu yn nogfennau Camau ABC ar gyfer llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fod o gymorth mawr i gynorthwyo ymarferwyr i ddeall yr hyn sydd angen i'r dysgwyr fod wedi'i ddysgu'n flaenorol. Gallai ychwanegu'r wybodaeth hon gynorthwyo'r ymarferwyr i nodi unrhyw fylchau yn y dysgu a allai rwystro datblygiad y sgiliau hyn. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r ymarferwyr dargedu meysydd sgiliau y mae angen eu datblygu ymhellach. Hefyd, mae ychwanegu cerrig*

[2] Mae'r fframweithiau yn cynnwys cerrig milltir allweddol Ar Drywydd Dysgu. Bwriad hyn yw darparu ymarferwyr gyda dealltwriaeth o ddysgu blaenorol i ddysgu gofynnol. A yw hyn yn ddefnyddiol?

> *milltir allweddol Ar Drywydd Dysgu* [yn hybu] *dealltwriaeth o gynnydd fel continwwm ac yn* [cefnogi'r] *camau bach cyson o gynnydd y dylai'r dysgwyr eu gwneud.*
>
> Estyn

Roedd y canfyddiadau cadarnhaol yn aml yn seiliedig ar y ddealltwriaeth bod Ar Drywydd Dysgu yn rhoi cyflwyniad clir a hygyrch a fyddai'n cynorthwyo'r ymarferwyr i ymwneud â'r dysgwyr. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at bwysigrwydd a gwerth cyflwyno Ar Drywydd Dysgu a'r Camau ABC mewn un ddogfen:

> [Mae'n] *darparu gwybodaeth yn Ar Drywydd Dysgu ac yn galluogi staff i ystyried cynnydd fel continwwm. Mae'n bwynt cyfeirio da i staff os oes ganddynt bryderon yn ynghylch dysgwyr penodol. Bydd gweld y fframwaith yn ei gyfanrwydd mewn un ddogfen* [sydd] *yn cynnwys Ar Drywydd Dysgu, Camau ABC, a'r cam cynnydd yn helpu i weld y llwybr.*
>
> Cynghorydd Herio, Awdurdod lleol

> *Mae'n bwysig bod cynnydd (er bod hynny o Gamau ABC i gam cynnydd 1, neu o Ar Drywydd Dysgu i Gamau ABC) yn hygyrch i ymarferwyr. Bydd cadw camau Ar Drywydd Dysgu oddi mewn i'r un ddogfen yn helpu'r ymarferwyr i gynllunio'n llawer mwy hwylus a deall cynnydd.*
>
> Swyddog Gwella Ysgolion, Awdurdod lleol

Roedd cytundeb ymhlyg a phenodol hefyd ynglŷn â theimlad cyffredinol ac amcanion Ar Drywydd Dysgu, Camau ABC, a'r fframweithiau yn fwy cyffredinol. Roedd y rhain yn cynnwys y canfyddiad o bwyslais ar rymuso ymarferwyr o fewn y fframweithiau yn ehangach ac annog mwy ymgysylltiad, ac ymgysylltiad mwy ystyrlon, o ran cynorthwyo datblygiad pob plentyn:

> *Mae hyn yn galluogi ymarferwyr i ddeall gwybyddiaeth datblygiad cynnar plant a sut mae dealltwriaeth gynnar o fathemateg yn dechrau ac yn datblygu. Mae hyn yn gwella'r dysgu proffesiynol i'r holl staff sy'n cynorthwyo dysgwyr i wneud cynnydd.*
>
> Consortiwm rhanbarthol

## *Rhagor o Fanylion a Chysondeb*

Unwaith eto, cyfeiriodd rhai ymatebwyr at feysydd lle byddai mwy o fanylion a chysondeb yn werthfawr. Roedd y rhain yn cynnwys enghreifftiau penodol o ble y gellid cryfhau Ar Drywydd Dysgu a Chamau ABC:

> *Llythrennedd: Mae'r camau'n gwneud cynnydd drwy'r sgiliau ond mae rhai yn agored i'w dehongli ac nid ydynt yn ddigon penodol. Rhifedd: Ydy, defnyddiol, er y byddai cysylltiadau yn rhoi mwy o gymorth ac eglurder* [...]. *FfCD: Ydy, defnyddiol iawn i nodi'r dysgu blaenorol fydd ei angen* [tra'n] *symud ymlaen drwy gamau A, B ac C. Nid yw rhai o elfennau FfCD Camau ABC yn cynnwys Ar Drywydd Dysgu. Mae'r datganiadau'n aml*

*yn amwys ac nid ydynt yn darparu'r eglurder sydd ei angen. Mae nifer o nodweddion ar goll yn gyffredinol. Mae amlder y datganiadau 'Rwy'n gallu [...]' yn rhy amrywiol. Mewn rhai achosion, mae'n nodi'n rheolaidd, 'Rwy'n gallu [...]'. Mewn datganiadau eraill ni chaiff ei grybwyll. Yn ddelfrydol, mae angen i hyn fod yn sail i ddatganiad asesu cryf. Mae manylion annibyniaeth wedi'u hepgor; mae angen i hyn gael ei nodi.*

Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru, Undeb athrawon

*Nid oes gan y targed Ar Drywydd Dysgu a nodwyd gysylltiad clir bob amser â'r elfen Cam ABC cysylltiedig.*

Uwch Arweinydd, Ysgol arbennig

## 2.5 Cefnogi Cynnydd Dysgwyr

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oedd y Camau ABC diwygiedig yn cynorthwyo'r ymarferwyr i gynllunio ar gyfer cynnydd ar hyd continwwm dysgu personol rhwng camau.[3]

### Canfyddiadau Cyffredinol

Yn yr ymatebion, roedd 68 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno bod y Camau ABC diwygiedig yn cynorthwyo'r ymarferwyr i ymwneud â chynllunio a chynnydd yn effeithiol. Roedd y 32 y cant arall o'r ymatebwyr yn ansicr.

### Themâu Allweddol

#### *Cynorthwyo Ymgysylltiad Ymarferwyr*

Roedd y rhai a oedd yn cytuno yn aml yn teimlo bod y wybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffordd hygyrch a diddorol. O'r safbwyntiau hyn, roedd Camau ABC yn cynnig digon o wybodaeth i weithredu ar y canllawiau i gefnogi cynnydd y dysgwyr:

*Mae'r camau wedi'u rhannu'n llai ac yn dangos cynnydd clir yn gynnar yn y dysgu.*

Athro, Ysgol arbennig

*Mae'n rhesymegol, yn syml ac yn flaengar.*

Pwyllgor Ymgynghorol y Llywodraethwyr

Nodwedd arall o'r thema hon (unwaith eto) oedd y cydbwysedd rhwng manylion a hyblygrwydd yn y Camau ABC diwygiedig. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y fframweithiau'n canfod y cydbwysedd cywir, gan gynnig digon o wybodaeth i gynorthwyo cynllunio a chynnydd heb fod yn rhagnodol:

[3] A yw'r Camau ABC diwygiedig yn helpu ymarferwyr i gynllunio ar gyfer cynnydd dysgu a phersonoli dysgu rhwng camau?

*Mae Camau ABC yn rhoi fframwaith i'r ymarferwyr fonitro datblygiad y dysgwyr. Mae'r camau hyn yn eang ac yn dangos dysgu fel continwwm, gan roi'r cyfle i gynllunio amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi cynnydd rhwng camau. Nid yw'r camau'n rhagnodol — maent yn rhoi rhyddid i ymarferwyr gynllunio gweithgareddau sy'n briodol i anghenion unigol y dysgwyr.*

Estyn

## *Eu Cymhwyso'n Ymarferol*

Cyfeiriodd rhai at bwysigrwydd deall sut mae Camau ABC yn cael eu cymhwyso at ddysgu ac addysgu yn ymarferol. O'r safbwyntiau hyn, byddai effeithiolrwydd y fframweithiau yn seiliedig ar y ffordd y cânt eu dehongli a'u cymhwyso:

*Mae cofnod o gynnydd mewn camau pendant ym medrau'r dysgwr, fel sy'n cael ei gofnodi yn y cerrig milltir, yn gymorth i ymarferwyr i weld beth sy'n ddisgwyliedig i gyrraedd y cam nesaf. Mae 'sut' mae hynny'n digwydd, i'w weld, yn benderfyniad i'r ymarferydd a'i broffesiynoldeb ei hun.*

Cynghorydd Herio, Awdurdod lleol

Mynegodd rhai bryderon y gallai'r fframweithiau gael eu dehongli a'u cymhwyso at ddysgu ac addysgu mewn ffordd gul. Roedd hyn yn cynnwys y canfyddiad y gellid defnyddio Camau ABC a'r fframweithiau fel rhestrau gwirio, wrth i ymarferwyr arsylwi sgiliau neu briodoleddau penodol sydd wedi'u hamlygu yn y fframweithiau heb o reidrwydd ystyried cynnydd yn fwy cyfannol wrth gynllunio ac addysgu:

*Yn fy marn i, mae gormod o nodweddion yn hyn a gall bron â bod yn rhestr wirio, ac nid dyna yw'r bwriad. Offeryn cynllunio ddylai fod ac felly'n nodwyr llwybr allweddol i gynorthwyo athrawon. Gallai esboniad o sut beth yw hyn gael ei gynnwys mewn llyfryn canllaw (fel yn achos Ar Drywydd Dysgu) i roi esiampl o sut beth yw'r nodwr hwnnw.*

Consortiwm rhanbarthol

## *Rhagor o Wybodaeth*

Thema arall a godwyd gan yr ymatebwyr oedd y gwerth posibl sydd i ragor o wybodaeth yn y canllawiau cyffredinol o amgylch y fframweithiau. Roedd hyn yn cynnwys gwahaniaethu'n gliriach o ran pa ddysgwyr sydd dan sylw yng Nghamau ABC a'r cymorth y dylent ei gael:

*Wrth gyfeirio at Gamau ABC, mae'n bwysig gwahaniaethu na fydd pob dysgwr ag* [anghenion dysgu ychwanegol] *yn gweithio tua'r camau hyn. Mae llawer o ddysgwyr ag* [anghenion dysgu ychwanegol] *yn gallu cyflawni* [ar] *yr un lefel â'u cyfoedion (o dderbyn y cymorth priodol). Dylai ymarferwyr weithio gyda gweithwyr proffesiynol*

*arbenigol, fel athrawon pobl fyddar, er mwyn canfod pa gamau dilyniant sy'n addas a chynorthwyo'r dysgwyr i gyflawni eu potensial llawn.*


Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru

## 2.6 Datblygu Gweithrediad Echddygol

Wrth archwilio'r gwaith o gynorthwyo datblygiad gweithrediad echddygol, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'i gynnwys yng Nghamau ABC y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.[4]

### Canfyddiadau Cyffredinol

Yn gyffredinol, roedd 94 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid ei gynnwys, ac nid oedd unrhyw ymatebwyr yn anghytuno:




### Themâu Allweddol

Mewn sylwadau mwy agored, roedd consenswys cyffredinol ynglŷn â phwysigrwydd cydnabod, cynnwys a chynorthwyo datblygiad gweithrediad echddygol. Teimlwyd bod hyn yn werthfawr er mwyn sicrhau cynnydd y dysgwyr:

*Ers gormod o amser rydym wedi bod yn dilyn cwricwlwm "un maint sy'n addas i bawb" ac nid yw erioed bod yn addas i bawb. Nawr, o gynnwys elfennau fel hyn, gallwn ddarparu ar gyfer anghenion pob dysgwr.*

Consortiwm rhanbarthol

[4] Ydych chi'n cytuno â chynnwys datblygiad gwerthoedd motor o sgiliau motor bras i sgiliau motor manwl o fewn Camau ABC y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd?

*Mae cynnwys y datblygiad o sgiliau echddygol bras i sgiliau echddygol manwl yn hanfodol bwysig ac mae angen ei asesu a'i fonitro'n effeithiol.*

Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru, Undeb athrawon

*Mae cynnwys datblygu gweithrediad echddygol o sgiliau echddygol bras i sgiliau echddygol manwl yn y dogfennau hyn yn ddefnyddiol ac yn adlewyrchiad cywir o'r camau cynnydd yn ystod y cyfnod dysgu hwn. Mae'r sgiliau hyn yn sail i ddatblygu llawer o gamau drwy'r dogfennau hyn a dylid eu hystyried ar draws y cwricwlwm. I lawer o ddysgwyr, gall datblygu'r sgiliau hyn ohirio datblygu sgiliau pellach. Er enghraifft, gall oedi wrth ddatblygu sgiliau echddygol bras effeithio ar ddatblygu sgiliau ysgrifennu. Yn ogystal â hyn, efallai y bydd gan lawer o ddysgwyr a fydd yn cael eu hasesu ar Gamau ABC anghenion dysgu ychwanegol. I'r dysgwyr hyn, gall darpariaeth arbenigol, fel therapi galwedigaethol, fod yn ei le i gynorthwyo eu datblygiad. Bydd cynnwys sgiliau echddygol yn y camau hyn o gymorth i athrawon dosbarth a staff arbenigol gydweithio'n agos er mwyn datblygu sgiliau'r dysgwyr yn gyfannol.*

Estyn

## Rhagor o Wybodaeth

Roedd eraill yn cytuno'n amodol â chynnwys gweithrediad echddygol yn y fframweithiau. Roedd hyn yn cynnwys pwysigrwydd cynnig dealltwriaeth fwy cyfannol o weithrediad echddygol yng nghyd-destun datblygiad corfforol a synhwyraidd dysgwyr unigol:

*Mae cymaint mwy na sgiliau echddygol bras a manwl mewn llythrennedd a rhifedd, a dylai* [Camau ABC] *adlewyrchu y tu hwnt i hynny.*

Rhiant/gofalwr

O'r safbwyntiau hyn, byddai mwy o fanylion yn werthfawr o ran helpu'r ymarferwyr i ymwneud â chynorthwyo datblygiad gweithrediad echddygol. Roedd hyn yn cynnwys rhagor o wybodaeth a chanllawiau, gan gynnwys cyfeirio at ddeunyddiau a chymorth:

*Mae'r maes hwn yn bwysig iawn ond dylai fod â'i adran ei hun yn hytrach na'i gynnwys yn yr adran ar eirfa, sillafu a gramadeg. Gellid cynnwys adran "paratoi ar gyfer ysgrifennu" sy'n cynnwys yr holl sgiliau echddygol bras a manwl a sefydlogrwydd craidd, osgo ac ati. Mae Handwriting Motorway yn rhaglen ragorol sy'n datblygu'r holl feysydd hyn a gellid cyfeirio ati.*

Uwch Arweinydd, Ysgol arbennig

## 2.7 Llawysgrifen a’r Fframwaith Llythrennedd

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a ddylid cynnwys elfen ychwanegol o fewn llinyn ysgrifennu'r Fframwaith Llythrennedd. Roedd hyn yn cynnwys cydnabod anawsterau synhwyraidd corfforol a allai effeithio ar allu dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau llawysgrifen.[5]

### Canfyddiadau Cyffredinol

Roedd cyfanswm o 15 o ymatebwyr (79 y cant) yn cytuno y dylid cynnwys anawsterau synhwyraidd corfforol. Roedd dau ymatebydd arall yn teimlo'n ansicr neu na ddylid eu cynnwys.

### Themâu Allweddol

Roedd y rhai a oedd yn mynegi teimladau mwy cadarnhaol ynglŷn â chynnwys anawsterau synhwyraidd corfforol yn y fframwaith yn tueddu i gyfeirio at y posibilrwydd o gynorthwyo ymarferwyr a dysgwyr. O'r safbwyntiau hyn, byddai cydnabod dulliau gwahanol o gynorthwyo'r rhai sydd ag anawsterau synhwyraidd corfforol yn annog cymorth mwy effeithiol:

> [Byddai'n] *ddefnyddiol i'r rhai sy'n darparu ar gyfer disgyblion sydd angen defnyddio'r dull hwn. Er bod hyn yn benodol iawn ac yn effeithio ar nifer fach, byddai'n wybodaeth ddefnyddiol i'r rhai sy'n cynorthwyo disgyblion.*

Swyddog Gwella Ysgolion, Consortiwm rhanbarthol

> *Credwn y byddai ychwanegu'r elfen hon o ysgrifennu o fudd i ddysgwyr ac ymarferwyr. Efallai na fydd rhai dysgwyr byth yn gallu datblygu'r sgiliau i ysgrifennu gyda phensil; fodd bynnag, efallai y gallant feithrin sgiliau sy'n caniatáu iddynt ysgrifennu'n rhugl drwy ddulliau eraill, e.e. teipio. Bydd ychwanegu'r sgiliau hyn yn sicrhau bod athrawon yn ystyried nad oes angen i anawsterau synhwyraidd corfforol fod yn rhwystr i ddatblygu sgiliau ysgrifennu da. Yn ogystal â hyn, bydd yn rhoi modd i ymarferwyr fonitro datblygiad y sgiliau hyn yn unol â'u grŵp cyfoedion (gan ei bod yn bwysig nodi efallai na fydd gan rai disgyblion sy'n cael trafferth gydag anawsterau synhwyraidd corfforol anabledd dysgu).*

Estyn

### *Technoleg Gynorthwyol*

Cyfeiriodd eraill at werth a phwysigrwydd codi proffil technoleg gynorthwyol er mwyn cynorthwyo cyfathrebu. O'r safbwyntiau hyn, gall cynnwys technoleg yn benodol ochr yn ochr â llawysgrifen annog iddynt gael eu hymgorffori'n fwy effeithiol mewn dysgu ac addysgu:

---

[5] Mae rhai dysgwyr yn datblygu dulliau amgen er mwyn ysgrifennu oherwydd anawsterau synhwyraidd corfforol. A ddylid ychwanegu elfen arall at linyn ysgrifennu’r Fframwaith Llythrennedd i gydnabod datblygiad a chynnydd y sgiliau hyn (h.y. creu testun heb feiro a phensil)? Darparwch fanylion, gan egluro pam.

*Rwyf wedi dysgu llawer o ddisgyblion sydd wedi gorfod dibynnu ar ddulliau eraill o gyfathrebu ysgrifenedig, e.e. gliniaduron* [ac] *iPads, ac ystyriwyd yn gyffredinol bod hyn yn israddol o gymharu ag ysgrifennu. Byddai ei gynnwys yn y Fframwaith Llythrennedd yn codi proffil hyn fel offeryn ar gyfer cyfathrebu, yn enwedig o ystyried pwysigrwydd prosesu geiriau mewn swyddi yn y dyfodol.*

Uwch Arweinydd, Ysgol gynradd

*Gall technoleg amgen fod o gymorth ac felly dylid ei nodi. Mae angen i ni fod yn glir mai cynllunio ar gyfer addysgu a chynnydd sgiliau yw hyn.*

Consortiwm rhanbarthol

## Rhagor o Wybodaeth

Yn ogystal â thechnoleg, cyfeiriodd ymatebwyr eraill at wybodaeth bellach yn y fframwaith a allai fod yn werthfawr. Roedd hyn yn cynnwys Ar Drywydd Dysgu a Chamau ABC ehangach sy'n cwmpasu camau dysgu gwahanol ymhlith y dysgwyr hynny y gallai fod angen iddynt ddatblygu sgiliau cyfathrebu ar wahân i lawysgrifen:

*Mae angen rhannu hyn yn ddau faes gwahanol: a) datblygu'r sgiliau corfforol sydd eu hangen i ysgrifennu â llaw (fel a nodwyd yn y cwestiwn uchod), yr ydym yn ymwybodol na fydd rhai disgyblion byth yn gallu eu datblygu oherwydd eu cyflyrau corfforol — nid ydym yn siŵr a yw'n berthnasol cynnwys targedau gwahanol yn benodol ynghylch datblygu'r sgiliau corfforol sydd eu hangen ar gyfer dulliau ar wahân i ysgrifennu â llaw, gan y bydd y sgiliau hyn yn wahanol i wahanol ddisgyblion (e.e. sgiliau syllu â'r llygaid, y gallu i bwyso switsh, ac ati);* [a] *b) datblygu'r sgiliau sy'n gysylltiedig â llunio darn "ysgrifenedig", a all naill ai fod wedi'i ysgrifennu â llaw neu wedi'i greu gan ddefnyddio technoleg gynorthwyol a bydd hyn yn cynnwys y gallu i greu dilyniant, creu naratif, ac ati. Mae'n ymddangos bod y Camau ABC diwygiedig eisoes yn mynd i'r afael â hyn yn dda ac* [yn cynnwys] *y ffaith y gallai disgyblion fod yn defnyddio TG i greu eu gwaith ysgrifenedig.*

Uwch Arweinydd, Ysgol arbennig

## Diangen

Teimlai dau ymatebydd nad oedd angen cynnwys anawsterau synhwyraidd corfforol. O'r safbwyntiau hyn, roeddent yn teimlo bod y fframwaith (fel ag yr oedd) yn ddigonol i gefnogi pob dysgwr:

*Mae eisoes wedi'i nodi y gall* [symbolau]*/delweddau siarad gael eu defnyddio.*

Athro, Ysgol arbennig

*Gellir dadlau bod modd i ddisgyblion sy'n symud ymlaen o wneud marciau i ysgrifennu â llaw gael eu datblygu gyda'r fframwaith presennol ac na fydd cyflwyno elfen ychwanegol o fudd ac* [y bydd yn] *rhy ragnodol. Gall y cyfrwng y mae disgyblion yn ei ddefnyddio i gyfathrebu drwy wneud marciau a* [symud ymlaen] *i ysgrifennu â llaw fod yn ôl disgresiwn yr ysgol er mwyn diwallu anghenion eu dysgwyr.*

Gwella Ysgolion, Awdurdod lleol

## 2.8 Datganiadau Camau ABC

I archwilio gwerth datganiadau Camau ABC a'r ffordd y maent yn cael eu cyfleu, gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oedd lefel y manylion a ddarparwyd yn y fframweithiau yn ddigonol.[6]

### Themâu Allweddol

### *Manylion ac Eglurder*

O'r ymatebwyr hynny a wnaeth gynnig barn a sylwadau, y thema allweddol oedd cynnwys manylion neu eglurhad ychwanegol lle teimlwyd y byddai'n cryfhau datganiadau Camau ABC. O'r safbwyntiau hyn, gallai rhagor o fanylion ac eglurhad fod yn werthfawr er mwyn sicrhau bod gan ymarferwyr yr hyn sydd ei angen arnynt i gynorthwyo'r dysgwyr yn effeithiol:

*Oddi mewn i Gamau ABC, byddai'n ddefnyddiol darparu rhagor o enghreifftiau i osgoi'r posibilrwydd o gamddeall. Er enghraifft, 'Rwy'n gallu rhyngweithio ag eraill ar-lein'* [a] *'*[Rwy'n gallu] *arsylwi ar eraill ar-lein' — mae'r datganiadau hyn yn go eang a gellid eu cymhwyso at lefelau gwahanol iawn.*

Consortiwm rhanbarthol

Roedd yr ymatebwyr yn tueddu i gyfeirio at ddatganiadau penodol iawn yr hoffent eu gweld yn cael eu hegluro neu eu cynnwys:

*'Dangos ymwybyddiaeth o atalnodi' — gellid ystyried bod cam C yn fwy cymhleth na cham cynnydd 1. Byddai mwy o eglurhad yn ddefnyddiol.*

Swyddog Gwella Ysgolion, Consortiwm rhanbarthol

Teimlai eraill y gellid diwygio ychydig ar rai o'r datganiadau. Roedd hyn yn cynnwys yr awgrym nad oedd dilyniannau penodol o ddatganiadau Ar Drywydd Dysgu ac ABC yn cyd-fynd â'i gilydd:

[6] A oes unrhyw rai o ddatganiadau Camau ABC sydd, yn eich barn chi, yn rhy fanwl neu sydd ddim yn ddigon manwl? Rhowch fanylion, gan esbonio pam.

> *Llythrennedd: Siarad cydweithredol: Mae cam A yn rhy uchel ac yn ormod o naid o Ar Drywydd Dysgu; Cwestiynau: Mae* [cam] *A yn rhy uchel ac yng ngham C — pam?* [Mae'r] *cwestiynau'n rhy anodd.*

Uwch Arweinydd, Ysgol Arbennig

Yn ogystal, teimlai Comisiynydd Plant Cymru y gellid ymgorffori hawliau plant yn fwy penodol yn y Camau ABC sydd wedi'u cynnwys natganiadau'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol:

> *Yn nisgrifiadau'r camau, dylid cynnwys hawliau penodol CCUHP. Mae hyn yn golygu nad oes amwysedd ynghylch beth yw'r hawliau hyn — boed i weithwyr proffesiynol neu i blant* [...]. *Mae defnyddio iaith hawliau hefyd yn gadarnhaol a grymusol, a all fod yn arbennig o bwysig i blant hŷn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, y gall datblygiad eu sgiliau fod yn cael ei lywio gan y fframwaith hwn.*

Comisiynydd Plant Cymru

Aeth rhai ymatebwyr y tu hwnt i ddatganiadau Camau ABC, gan gyfeirio at wybodaeth bellach a allai fod yn werthfawr i'w chyflwyno i ymarferwyr. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ehangach a allai gynorthwyo ymarferwyr i ymwneud â'r fframweithiau. Awgrymodd Estyn, er enghraifft, y gallai esiamplau a deunyddiau eraill fel rhestr termau fod yn werthfawr er mwyn helpu ymarferwyr i wneud cysylltiadau rhwng y fframweithiau a dysgu ac addysgu:

> *Teimlwn fod y camau yn y dogfennau hyn yn gyson, yn gywir ac yn briodol o fanwl. Fodd bynnag, mae lle i gryfhau'r ddealltwriaeth ehangach o'r camau hyn drwy ychwanegu enghreifftiau a rhestr o dermau allweddol. Er enghraifft, byddai rhestr o dermau allweddol i esbonio rhai ymadroddion fel 'festibwlar' neu 'propriodderbynnol' yn sicrhau bod pob darllenydd yn eu deall yn dda. Hefyd, gellid cryfhau rhai camau drwy ychwanegu enghreifftiau i helpu dealltwriaeth, fel camau llythrennedd, strategaethau darllen, camau B, 'gwahaniaethu rhwng cynrychioliad symbolaidd'; neu mewn cymhwysedd digidol, llythrennedd gwybodaeth a data, cam B, 'Rwy'n gallu deall bod modd i un eitem gael ei chynrychioli drwy gyfrwng arall'. Gallai esiamplau wneud y ddogfen a'r canllawiau yn fwy hygyrch i bawb, gan gynnwys rhieni a staff cymorth.*

Estyn

## Digon o Fanylion

Teimlai ychydig o ymatebwyr fod datganiadau Camau ABC yn ddigonol. O'r safbwyntiau hyn, roeddent yn rhoi digon o sylw a dyfnder heb fod yn rhy ragnodol, ac yn hwyluso'r arfer o'u gwneud yn bersonol:

*Dylai ysgolion a lleoliadau gael y cyfle i wneud elfennau'n briodol o bersonol rhwng camau er mwyn diwallu anghenion eu dysgwyr. Mae lefel y manylder yn ddigonol heb fod yn rhy ragnodol.*

Swyddog Gwella Ysgolion, Awdurdod lleol

## 2.9 Deunyddiau Ychwanegol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oedd unrhyw ddeunyddiau pellach yr oeddent yn teimlo y byddai'n werthfawr eu darparu i'r ymarferwyr er mwyn cynorthwyo'r dysgwyr.[7]

### Themâu Allweddol

#### *Canllawiau Ychwanegol*

Teimlwyd bod canllawiau ychwanegol yn bwysig er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn rhoi sylw i agweddau neu ystyriaethau penodol o'r fframweithiau. Roedd hyn, er enghraifft, yn cynnwys sicrhau bod ymarferwyr yn cyfathrebu'n effeithiol wrth gynorthwyo'r dysgwyr:

> *Dylai Fframweithiau'r Sgiliau Trawsgwricwlaidd nodi bod angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol y gallai rhai dysgwyr gael trafferth gydag un maes dysgu, yn enwedig y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Dylai'r canllawiau annog athrawon i rannu gwybodaeth mewn cynllun datblygu unigol fel nad yw dysgu trawsgwricwlaidd yn golygu bod rhwystrau y mae dysgwr yn eu hwynebu mewn un pwnc yn* [creu] *rhwystrau mewn pynciau eraill.*

Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru

#### *Esiamplau*

Roedd yn ymddangos bod ychydig o anghytuno ymhlith ymatebwyr ynghylch rôl a gwerth esiamplau i hybu ymgysylltiad â'r fframweithiau. Teimlai rhai y byddai esiamplau yn werthfawr o ran rhoi awgrymiadau ymarferol i'r ymarferwyr ynghylch cynllunio ac ymgorffori Camau ABC mewn dysgu ac addysgu:

> [Dylai fod yna] *adnoddau digidol ac enghreifftiau o ddulliau priodol (a llwyddiannus) sy'n cael eu defnyddio mewn gwahanol ysgolion ledled Cymru,* [yn arbennig] *dulliau amlsynhwyraidd ac enghreifftiau fideo o'r effaith y mae'n ei chael ar ddisgyblion. Bydd hyn o gymorth i athrawon nad oes ganddynt y gallu i rwydweithio ag eraill neu sydd heb fynediad uniongyrchol (yn eu hysgol eu hunain) i ddulliau, adnoddau ac arbenigedd amlsynhwyraidd.*

Swyddog Gwella Ysgolion, Awdurdod lleol

[7] Pa ddeunyddiau cymorth pellach fyddai'n ddefnyddiol?

Roedd eraill, fodd bynnag, yn teimlo y gallai esiamplau fod yn wrthgynhyrchiol. O'r safbwyntiau hyn, roedd yn bwysig annog ymgysylltiad dyfnach â datblygiad a chynnydd dysgwyr, a gallai esiamplau olygu bod ymarferwyr yn ymgorffori dehongliadau symlach o Gamau ABC:

> *Mae angen inni fod yn ofalus y gall darparu gormod o enghreifftiau olygu bod ymarferwyr yn copïo hyn. Dylai unrhyw ddeunyddiau cymorth pellach ganolbwyntio ar addysgeg (yn hytrach na darparu rhagor o enghreifftiau).*

Swyddog Gwella Ysgolion, Consortiwm rhanbarthol

### *Cynorthwyo Datblygiad Sgiliau Ehangach*

Teimlai rhai ei bod yn bwysig bod ymarferwyr yn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu ystod ehangach o sgiliau, nid llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn unig. O'r safbwyntiau hyn, gallai canllawiau neu fframweithiau ehangach fod yn werthfawr i roi arweiniad i'r ymarferwyr wrth gynorthwyo'r dysgwyr:

> *Un maes datblygu allweddol pan fydd disgyblion yn gweithio ar y cyfnod hwn* [yw] *sgiliau personol a sgiliau bywyd fel bwyta, yfed, mynd i'r toiled, rheoli ymddygiad, a rheoli sylw, ac eto nid yw'r dulliau i gynorthwyo athrawon i gynllunio'r sgiliau hyn yn cael eu darparu.*

Consortiwm rhanbarthol

### *Datblygiad Proffesiynol Parhaus*

Ar draws yr ymgynghoriad, cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at bwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) er mwyn cynorthwyo'r ymarferwyr i ymwneud â'r fframweithiau. Roedd hyn yn cynnwys cyfleoedd i ymarferwyr feithrin y sgiliau a'r hyder i ymgorffori'r fframweithiau'n effeithiol mewn dysgu ac addysgu:

> [Dylai fod yna] *DPP i staff ar bob lefel ar sut i addasu i'r newidiadau.*

Consortiwm rhanbarthol

## 2.10 Dysgu a Chamau ABC

Gallai dysgwyr dreulio cryn dipyn o'u hamser yn dysgu oddi mewn i Gamau ABC. Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oedd y Camau ABC diwygiedig yn dangos y dysgu y mae gofyn i'r dysgwyr hyn ei gyflawni.[8]

---

[8] Gall dysgwyr dreulio cryn dipyn o’u hamser yn dysgu o fewn Camau A/B/C. A yw’r Camau ABC diwygiedig yn dangos y dysgu sydd ei angen i gefnogi cynnydd?

## Canfyddiadau Cyffredinol

Roedd mwy o ansicrwydd ynglŷn â safbwyntiau ynghylch y newidiadau i Gamau ABC. Roedd wyth ymatebydd yn cytuno bod Camau ABC yn ddigonol (44.4 y cant), roedd wyth yn ansicr, ac roedd dau ymatebydd yn teimlo nad oeddent.

## Themâu Allweddol

### Clir ac Effeithiol

I'r ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno, roeddent yn tueddu i awgrymu bod Camau ABC yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr a chlir o'r sgiliau y dylai ymarferwyr geisio eu hyrwyddo ymhlith dysgwyr:

> *Maent yn darparu dangosyddion cynnydd ar gamau bach ar gyfer disgyblion iau ac ar gyfer y rhai sydd ag* [anghenion dysgu ychwanegol] *lle nad oedd dim o'r blaen. Roedd y staff rwyf i wedi siarad â nhw yn dweud mai dyma'n union sydd ei angen arnynt.*

Uwch Arweinydd, Ysgol gynradd

> *Mae'r Camau ABC hyn yn dangos y sgiliau sydd eu hangen i wneud cynnydd ar draws meysydd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Mae'r camau hyn yn glir, yn gyson, ac yn dangos sut beth yw cynnydd yn y meysydd hyn. Maent hefyd yn dangos bod cynnydd yn digwydd ar hyd continwwm. Mae'r camau yn y ddogfen yn darparu canllawiau addas ar gyfer y dysgu sydd ei angen i gefnogi cynnydd. Teimlwn ei bod yn gadarnhaol nad yw'r canllawiau'n rhy ragnodol ac yn caniatáu i ymarferwyr wneud penderfyniadau ar sail anghenion dysgwyr.*

Estyn

### Cynorthwyo Datblygiad Sgiliau Ehangach

I'r ymatebwyr hynny a fynegodd eu bod yn ansicr neu'n teimlo nad oedd Camau ABC yn disgrifio'r hyn sydd angen ei ddysgu yn gywir, cyfeiriodd rhai unwaith eto at bwysigrwydd cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu ystod ehangach o sgiliau. Roedd y rhain yn cynnwys sgiliau y tu hwnt i lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, gan gynnwys (ymhlith eraill) sgiliau bywyd ehangach:

> *Fel y dywedwch, efallai y bydd rhai dysgwyr yn treulio llawer o amser yng Nghamau ABC a chymorth ar gyfer cynllunio mewn tri maes datblygu sgiliau yn unig y mae'r rhain yn ei ddarparu, er bod yno feysydd pwysig eraill o ddatblygu sgiliau.*

Consortiwm rhanbarthol

## 2.11 Y Gymraeg

Yn olaf, gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r ymatebwyr yn ymwneud â goblygiadau ac effaith y Camau ABC diwygiedig ar y Gymraeg.[9] Ni wnaeth pob ymatebydd gynnig barn a sylwadau. O'r rhai a wnaeth, codwyd amrywiaeth o ystyriaethau.

### Themâu Allweddol

#### *Effaith Gadarnhaol neu Ddim Effaith Amlwg*

Teimlai rhai ymatebwyr y byddai'r fframweithiau'n cael effaith gadarnhaol neu ddim effaith amlwg ar y Gymraeg. Nododd rhai, er enghraifft, pe byddai'r fframweithiau'n effeithiol o ran gwella caffael iaith o gymharu â lefelau presennol, gallai hyn gael effeithiau cadarnhaol cyfatebol ar ymgysylltiad dysgwyr â'r Gymraeg:

> *Gan fod* [Ar Drywydd Dysgu] *a Chamau ABC yn aml yn rhagflaenu caffael iaith, byddai'n cynorthwyo'r cyfleoedd i bobl siarad Cymraeg.*
>
> Ymatebydd

> *Ni ddylai'r camau gael effaith negyddol ar y Gymraeg. Mae sicrhau caffael iaith sy'n ddatblygol ac sy'n cael ei wneud mewn cyd-destun addas a chyffrous yn greiddiol. Os yw'r camau cynnydd yma'n cael eu haddysgu'n dda, yna byddai'r Gymraeg yn elwa. Mae'r pwyslais ar y llafar — siarad a gwrando yn greiddiol yn hyn o beth er mwyn trochi ieithyddol effeithiol.*
>
> Cynghorydd Her Ysgolion, Awdurdod lleol

#### *Ymgorffori'r Gymraeg yn Gadarnach*

Cynigiodd ymatebwyr eraill awgrymiadau ynghylch ble y gellid cryfhau'r Gymraeg yn y fframweithiau. Roedd y rhain yn cynnwys cynnig rhagor o fanylion neu ganllawiau ehangach i ymarferwyr ar sut y gellid ymgorffori dwyieithrwydd mewn dysgu ac addysgu, yn enwedig mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg:

[9] Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Camau ABC diwygiedig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar: i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol? Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y Camau ABC diwygiedig: i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

*Os caiff y rhain eu creu'n ddwyieithog, yna ni ddylai hyn fod yn broblem. Efallai y gellid datblygu enghreifftiau o sut y gellir defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg, e.e. awgrymu y gallai storïau/geirfa fod yn rhai cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg.*

Swyddog Gwella Ysgolion, Consortiwm Rhanbarthol

*Prin yw'r cyfeiriadau at y Gymraeg yn y dogfennau hyn. Gellid cryfhau'r dogfennau hyn drwy ychwanegu astudiaethau achos pellach sy'n dangos sut y gellid defnyddio'r Camau ABC hyn ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, byddai'n ddefnyddiol cynnwys astudiaethau achos ynghylch sut y caiff llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol eu datblygu drwy ddarparu dysgu Cymraeg ar gyfer lleoliadau cyfrwng Saesneg.*

Estyn

Ystyriaeth arall oedd y posibilrwydd o wneud y fframweithiau eu hunain yn ddwyieithog, neu wau'r Gymraeg i mewn i fersiynau Saesneg er mwyn hybu dwyieithrwydd:

[Dylent] *sicrhau bod y dogfennau ar gyfer lleoliadau cyfrwng Saesneg yn cyfeirio at y Gymraeg, e.e. gwneud y Gymraeg yn weladwy.* [Dylent] *normaleiddio dwyieithrwydd* [a] *gwella disgwyliadau'r ymarferwyr (os nad y dysgwyr).*

Swyddog Gwella Ysgolion, Consortiwm Rhanbarthol

## 2.12 Casgliadau

Roedd yr ymatebwyr (ar y cyfan) yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r diwygiadau i Gamau ABC. Roedd hyn yn cynnwys mewn perthynas â'r dogfennau eu hunain yn ogystal â'r amcanion ehangach y maent yn ceisio eu hyrwyddo. Roedd consensws cyffredinol ynghylch pwysigrwydd cefnogi pob dysgwr, er enghraifft, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Roedd llawer o'r ymatebwyr hefyd yn croesawu teimlad a chyfeiriad cyffredinol y dull gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys y pwysigrwydd sy'n cael ei roi i ddysgu a chynnydd mewn ffordd bersonol, yn ogystal â chydnabod barn broffesiynol wrth gefnogi dysgwyr a rôl y farn broffesiynol hon.

Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y fframweithiau eu hunain yn ddefnyddiol i ymarferwyr. Roedd llawer yn teimlo bod elfennau fel Ar Drywydd Dysgu a Chamau ABC yn glir ac yn hygyrch. Byddai hyn o gymorth effeithiol i ymarferwyr ymwneud â dysgu ac addysgu, gan gynnwys cynllunio a chefnogi cynnydd dysgwyr.

Lle'r oedd yr ymatebwyr yn cynnig awgrymiadau am gryfhau'r fframweithiau, roedd y rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar gywirdeb a manylder yn Ar Drywydd Dysgu a Chamau ABC. Roedd hyn yn cynnwys tynhau'r cysondeb yn y datganiadau ac ar eu traws, yn ogystal â lle y gellid eu diwygio neu eu hehangu. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn dymuno gweld mwy o sôn yn benodol am rai elfennau yng Nghamau ABC, fel hawliau plant a'r Gymraeg. At hynny, cyfeiriodd ymatebwyr at y gwerth posibl sydd i gael rhagor o wybodaeth fel esiamplau a rhestr

termau. O'r safbwyntiau hyn, byddai rhagor o gywirdeb a manylder yng Nghamau ABC yn cefnogi ac yn sicrhau cynnydd dysgwyr.

Yn gyffredinol, mân addasiadau i'r Camau ABC diwygiedig oedd yr awgrymiadau ar ble y gellid eu cryfhau. Roedd yr ymatebwyr (unwaith eto) ar y cyfan yn croesawu'r diwygiadau ac yn teimlo eu bod yn darparu adnodd gwerthfawr i gefnogi pob dysgwr.

wavehill™

social and economic research

ymchwil cymdeithasol ac economaidd

01545 571711
wavehill@wavehill.com
wavehill.com